5



# Creu Gwe Fwyd Pwll

Cadwyni bwyd

**Bwriad Dysgu**

- Dysgu creu gwe bwyd a deall bod planhigion a chreaduriaid mewn cynefin yn gyd-ddibynnol.

**Sgiliau Cwricwlwm Cenedlaethol**

| | |
|---|---|
| **Gwyddoniaeth** | Cyd-ddibyniaeth organebau byw yn y ddau amgylchedd hynny a sut cânt eu cynrychioli fel cadwynau bwyd. |
| **ADCDF** | Yr amgylchedd naturiol. |

**Amlinelliad o'r Gweithgaredd**

- Hel gwybodaeth am organeb pwll.
- Gwneud ymchwil annibynnol.
- Trafod cynefinoedd.
- Creu gwe fwyd fawr yn y dosbarth.

**Adnoddau**

Llinyn!

Ystafell ddosbarth heb gadeiriau a byrddau.

Y lluniau o Wers Pyllau 4 (creu cadwyn fwyd pwll)

Y rhyngrhwyd - e.e. Naturegrid neu Learnanytime

# Creu Gwe Fwyd Pwll

## Amlinelliad Gwers

Beth yw cadwyn fwyd?

- Dechrau drwy adolygu'r cadwyni bwyd a grëwyd gan y plant. Esbonio bod llawer o anifeiliaid yn rhan o fwy nag un gadwyn fwyd a'u bod yn bwyta mwy nag un math o fwyd er mwyn diwallu eu hanghenion bwyd ac ynni. Mae'r cadwyni bwyd cydgysylltiedig yn ffurfio gwe fwyd.
- Os dymunwch, gallwch roi rhestr o greaduriaid i'r dosbarth a gadael i’r plant wneud ymchwil annibynnol gan ddefnyddio llyfrau. Mae'r gwefannau yn y rhestr o adnoddau ar y dudalen flaenorol yn fan cychwyn da os oes bwrdd gwyn yn yr ystafell ddosbarth.
- Symud y byrddau a'r cadeiriau o'r ystafell ddosbarth! Bydd angen llinyn a siswrn wrth law. Gofyn i'r disgyblion eistedd mewn cylch o gwmpas yr ystafell a gadael iddynt rannu gwybodaeth am eu creadur.
- Gofyn i'r dosbarth a oes gan unrhyw un organeb yn yr un *gadwyn* fwyd. Rhoi’r llinyn i'r disgyblion gan ei hestyn rhyngddynt. Parhau i annog y disgyblion i ymuno â'r gadwyn fwyd nes bod tua 4 organeb.
- Gofyn a oes unrhyw un wedi'i adael allan o'r gadwyn fwyd. Gofyn i ddisgyblion newydd ymuno â'r gadwyn fwyd, gan barhau i greu llanast o glymau yn yr ystafell ddosbarth.
- Cyflwyno’r syniad o we fwyd, cadwyni bwyd clymog sy'n dangos sut mae organebau yn *gyd-ddibynnol*.

*Wedi'i addasu o Mysciencebox.org*

A oes mwy o gynhyrchwyr neu ysyddion?

Beth fyddai'n digwydd pe byddai un o'r ysyddion yn diflannu o'r byd ? Fyddai'n gwneud gwahaniaeth petai’n gigysydd neu'n llysysydd?

Beth fyddai'n digwydd i'r we fwyd pe byddai'r cynefin yn cael ei ddifrodi gan lygredd?

Pam mae gwe fwyd yn well na cadwyn fwyd?

Beth fyddai'n digwydd pe byddai un o'r cynhyrchwyr yn diflannu o'r byd.